

Ymweliadau Ysgolion Cynradd

Tanio'r dychymyg chwilfrydig
yn Amgueddfa Cymru



**DARGANFOD
EICH
AMGUEDDFA**

national
museum
wales
amgueddfa
cymru



Croeso i Amgueddfa Cymru

Dewch â'ch disgyblion i ddarganfod
Amgueddfa Cymru a'i chasgliadau rhyfeddol

O bwl glo a gweithdai chwarel i felin wrth ei gwaith, o'r Celtiaid a'r Rhufeiniaid i arloeswyr y Chwyldro Diwydiannol, ac o ddeinosoriaid i gasgliadau celf syfrdanol mae cymaint i'w ddarganfod ar draws ein saith amgueddfa.

Yr Amgueddfa yw'r sefydliad sy'n cynnig y mwyaf o gyfleoedd dysgu tu hwnt i'r dosbarth yng Nghymru. Mae rhaglen amrywiol o weithgareddau i ysgolion ar draws pob cyfnod allweddol ar gael, gan gynnwys sesiynau wedi'u hwyluso, arddangosiadau, gweithgareddau annibynnol, teithiau ac adnoddau ar-lein. Mae sesiynau wedi eu llunio i gefnogi'r Cwricwlwm Cenedlaethol, i ddatblygu sgiliau meddwl ac i wir gynnwys y disgyblion yn yr holl brofiad dysgu.

**Ni fu dysgu y tu hwnt i'r
dosbarth erioed mor
berthnasol nac mor ddifyr.**

**Dewch i gael eich
hysbrydoli.**

Cymerwch ran!

Rydym yn datblygu cyfleoedd dysgu newydd yn ein hamgueddfeydd a hoffem i chi fod yn rhan o hyn. Cysylltwch â Hywel Couch ar **(029) 2057 3459** am ragor o fanylion am ein fforymau athrawon.



Cyffwrdd â'r gorffennol...

profi'r presennol...

**MYNEDIAD
AM DDIM**

Amgueddfa
Lechi
Cymru

Mae'r byd
addysg yn newid o
hyd, ond mae safon
ein casgliadau ac
arbenigedd ein
staff yn aros
yn gyson.

“Mae angen i'n plant a phobl ifanc gael eu gwreiddio yn eu diwylliannau eu hunain a bod â hunaniaith gref fel dinasyddion Cymru, y Deyrnas Unedig, Ewrop a'r byd ehangach.”

*Yr Athro Graham Donaldson,
Dyfodol Llwyddiannus*

Amgueddfa
Wlân
Cymru

Big Pit

Amgueddfa
Genedlaethol
y Glannau

Amgueddfa
Lleng
Rufeinig
Cymru

Sain Ffagan

Amgueddfa
Genedlaethol
Caerdydd

dychmygu'r dyfodol

Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru

O'r Celtiaid hyd heddiw, dewch i weld hanes Cymru yn dod yn fyw o flaen eich llygaid.

Mae gweithdai, arddangosiadau a gweithgareddau ar gael sy'n ategu'r Cwricwlwm Cenedlaethol a meithrin sgiliau allweddol ar gyfer pob cyfnod allweddol.

Yn eu plith, mae:

- Celtiaid yr Oes Haearn
- Y Tuduriaid
- Pobl Oes Fictoria
- Bywyd Bob Dydd yn y 19eg a'r 20fed Ganrif
- Crefftau Traddodiadol ar Waith



I drefnu ymweliad, ffoniwch ni ar
(029) 2057 3424

Rhaid trefnu ymweliadau gan ysgolion a grwpiau ymlaen llaw.
Codir tâl am rai sesiynau wedi'u hwyluso.

Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru yw un o amgueddfeydd awyr agored mwyaf blaenllaw Ewrop, ac atyniad treftadaeth mwyaf poblogaidd Cymru. Mae dros ddeugain o adeiladau hanesyddol o bob cwr o'n gwlad wedi'u hailgodi yma. Cewch flas ar arferion byw, gŵyl a gwaith y gorffennol.



“Cafodd 2LR ddiwrnod bendigedig yn Sain Ffagan! Diolch i Beti Bwt am ddysgu cymaint i ni!”

Ysgol Gynradd Moorland



Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru, Caerdydd, CF5 6XB

Ffôn: (029) 2057 3424 Ffacs: (029) 2057 3490 [f](#) [t](#) @StFagans_Learn



Mae ein rhaglen addysg lawn a gwybodaeth bwysig am archebu lle ar ein gwefan:

www.amgueddfacymru.ac.uk/sainffagan/addysg

Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd

Celf a hanes natur byd enwog – trysorau ym mhob twll a chornel.

Dewch i fwynhau casgliadau celf hynod yr Amgueddfa, mynd ar daith drwy hanes y gofod yn oriel Esblygiad Cymru, dod wyneb yn wyneb â mamothiaid gwlanog a deinosauriaid, a chael blas ar hanes natur cyfoethog Cymru. Mae'r cyfan i chi yma dan un to.



Mae gweithdai a gweithgareddau ar gael sy'n ategu'r Cwricwlwm Cenedlaethol a meithrin sgiliau allweddol ar gyfer pob cyfnod allweddol.

Yn eu plith, mae:

- Synau'r Deinosauriaid
- Bwystfilod Bach
- Penglogau, Dannedd ac Esgyrn
- Fy Ymweliad Cyntaf ag Oriol Gelf
- Tirluniau Cymru



I drefnu ymweliad, ffoniwch ni ar
(029) 2057 3240



Rhaid trefnu ymweliadau gan ysgolion a grwpiau ymlaen llaw.
Codir tâl am rai sesiynau wedi'u hwyluso.

“Roedd yr ymweliad yn berffaith. Y gefnogaeth ymlaen llaw wrth drefnu, yr ymweliad ei hun ac agwedd staff yr amgueddfa. Gwych. Anodd ei wella. Bendigedig. Welwn ni chi'n fuan.”

Ysgol Gynradd Pendoylan



Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NP

Ffôn: (029) 2039 3240 Ffacs: (029) 2057 3321   @MuseumCdf_Learn



Mae ein rhaglen addysg lawn a gwybodaeth bwysig am archebu lle ar ein gwefan:

www.amgueddfacymru.ac.uk/caerdydd/addysg

Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru

Blas ar fywyd gweithwyr
gwrol y ffas lo.

Mae gweithdai, arddangosiadau a gweithgareddau ar gael sy'n ategu'r Cwricwlwm Cenedlaethol a meithrin sgiliau allweddol ar gyfer pob cyfnod allweddol.

Yn eu plith, mae:

- Y Daith Dan Ddaear
- Sgrwb-a-dwb-dwb!
- Stomp Sgidiau Glaw
- Gweision yr Ymerodraeth
- Maggie Morgan



I drefnu ymweliad, ffoniwch ni ar
(029) 2057 3650

Rhaid trefnu ymweliadau gan ysgolion a grwpiau ymlaen llaw.
Codir tâl am rai sesiynau wedi'u hwyluso.

Dewch i ddarganfod treftadaeth lofaol gyfoethog ein gwlad mewn amgueddfa ryngweithiol anhygoel o fri. Dyma'ch cyfle i brofi holl seiniau, aroglau ac awyrgylch pwll glo go iawn ar ein taith danddaearol fyd-enwog.





“Profiad gwych! Diwrnod grêt, llawn gwybodaeth, wedi'i drefnu'n dda.”

Ysgol Gynradd Pillgwenlly



Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru, Blaenafon, Torfaen, NP4 9XP

Ffôn: (029) 2057 3650 Ffacs: (029) 2057 3668   @BigPitMuseum



Mae ein rhaglen addysg lawn a gwybodaeth bwysig am archebu lle ar ein gwefan:

www.amgueddfacymru.ac.uk/bigpit/addysg

Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru

Cyfle i ddysgu sut fyddai'r Rhufeiniaid yn byw, yn ymladd ac yn marw ar gyrion pellennig yr Ymerodraeth Rufeinig.

Saif yr Amgueddfa yng nghanol olion caer Rufeinig hynafol. Ymhlith yr olion hefyd mae'r unig farics Lleng Rufeinig sydd ar agor i'r cyhoedd yn Ewrop ac amffitheatr fwyaf cyflawn y Deyrnas Unedig. Camwch yn ôl mewn amser i ddysgu pam oedd y Rhufeiniaid gymaint i'w hofni, a'u heffaith ar fywyd yng Nghymru hyd heddiw.



Mae gweithdai a gweithgareddau sy'n ategu'r Cwricwlwm Cenedlaethol ac yn meithrin sgiliau allweddol ar gael ar gyfer cyfnod allweddol 2.

Mae'r gweithdai chwarae rôl canlynol, sy'n rhoi cyfle i'ch disgyblion wisgo fyny a chael blas ar fywyd bob dydd y Rhufeiniaid, ar gael ar ddyddiadau penodol yn ystod y flwyddyn:

- Medicus – meddyginiaeth Rufeinig
- Grammaticus – ystafell ddosbarth Rufeinig
- Meistri a Chaethweision – gwledd Rufeinig
- Cerdded gyda'r Rhufeiniaid – un wythnos yn unig
- Saturnalia – Gŵyl Aeaf Rufeinig



I drefnu ymweliad, ffoniwch ni ar
(029) 2057 3546

Rhaid trefnu ymweliadau gan ysgolion a grwpiau ymlaen llaw. Codir tâl am rai sesiynau wedi'u hwyluso.



“Cafodd Dosbarth 7 amser gwych heddiw! Ddywedon nhw mai hwn oedd eu hymweliad gorau erioed! Diolch!”

Ysgol Gynradd Machen, Twitter



Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru, Stryd Fawr, Caerllion, NP18 1AE

Ffôn: (029) 2057 3546 Ffacs: (029) 2057 3551 [f](#) [t](#) @RomanCaerleon



Mae ein rhaglen addysg lawn a gwybodaeth bwysig am archebu lle ar ein gwefan:

www.amgueddfacymru.ac.uk/rufeinig/addysg

Amgueddfa Wlân Cymru

Gadewch i hanes gwlan nyddu ei swyn yn yr amgueddfa unigryw hon.

Mae gweithdai, arddangosiadau a gweithgareddau ar gael sy'n ategu'r Cwricwlwm Cenedlaethol a meithrin sgiliau allweddol ar gyfer pob cyfnod allweddol.

Yn eu plith, mae:

- O Ddafad i Ddefnydd
- Y Diwydiant Gwlan ac Oes Fictoria
- Ffasiwn y 60au
- Ffeltio
- Gwehyddu
- Blychau Archwilio
- Diwrnod Golchi



I drefnu ymweliad, ffoniwch ni ar
(029) 2057 3070

Rhaid trefnu ymweliadau gan ysgolion a grwpiau ymlaen llaw.
Codir tâl am rai sesiynau wedi'u hwyluso.

Hen ffatri wlân y Cambrian yw cartref yr amgueddfa sy'n dal yn felin weithiol yn Nyffryn Teifi. Yma, cewch ddysgu mwy am y diwydiant fu'n cynhyrchu dillad, siolau a charthenni i weithiwyr Cymru a gweddill y byd.



“Roedd y sesiynau'n arbennig o addas ar gyfer anghenion y disgyblion – llawn gwybodaeth a chyfleoedd i blant gymryd rhan. Cawsant fwynhad mawr o'r ffeltio. Roedd y staff yn wybodus ac yn cadw diddordeb y plant.”

Ysgol Mynachlog Nedd



Amgueddfa Wlân Cymru, Dre-fach Felindre, Llandysul, Caerfyrddin, SA44 5UP
Ffôn: (029) 2057 3070 Ffacs: (01559) 371592 [f](#) [t](#) @AmgueddfaWlan



Mae ein rhaglen addysg lawn a gwybodaeth bwysig am archebu lle ar ein gwefan:
www.amgueddfacymru.ac.uk/gwlan/addysg

Amgueddfa Genedlaethol y Glannau

O beiriannau bythgofiadwy i anturwyr a dyfeiswyr, dewch i glywed straeon syfrdanol am stamp Cymru ar y byd.

Mae Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn adrodd hanes diwydiant ac arloesedd yng Nghymru, heddiw a thros y 300 mlynedd diwethaf.



Mae gweithdai a gweithgareddau ar gael sy'n ategu'r Cwricwlwm Cenedlaethol a meithrin sgiliau allweddol ar gyfer pob cyfnod allweddol.

Yn eu plith, mae:

- Ymchwiliad Fictoraidd
- Môr-ladron Cymru
- Awyrennau, Trenau a Cheir
- Teganau sy'n Symud
- Geiriau ac Adenydd
- Tywyllwch a Goleuni



I drefnu ymweliad, ffoniwch ni ar
(029) 2057 3600

Rhaid trefnu ymweliadau gan ysgolion a grwpiau ymlaen llaw.
Codir tâl am rai sesiynau wedi'u hwyluso.

“Mae Amgueddfa'r Glannau yn wych! Mae yno gymaint i ddysgu ac i gynnig i blant. Diolch am drefnu diwrnod grêt.”

Ysgol Gynradd Oystermouth



Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Ffordd Ystumllwynarth, Ardal Forwrol Abertawe, SA1 3RD

Ffôn: (029) 2057 3600 [f](#) [t](#) @the_waterfront



Mae ein rhaglen addysg lawn a gwybodaeth bwysig am archebu lle ar ein gwefan:

www.amgueddfacymru.ac.uk/abertawe/addysg

Amgueddfa Lechi Cymru

Dod â hanes y diwydiant roddodd
'do ar y byd' yn fyw.

Mae gweithdai, arddangosiadau a gweithgareddau ar gael sy'n ategu'r Cwricwlwm Cenedlaethol a meithrin sgiliau allweddol ar gyfer pob cyfnod allweddol.

Yn eu plith, mae:

- Arddangos y grefft o hollti a naddu llechi
- Taith Gerdded Chwarel Vivian
- Fron Haul – Cartrefi'r Chwarelwyr: taith trwy amser o ddechrau oes Fictoria i chwyldro'r 60au
- Pŵer y Dŵr – dewch i weld yr olwyn ddŵr fwyaf o'i bath ym Mhrydain a dysgu sut oedd yn gyrru'r diwydiant
- Diwrnod Golchi – un wythnos yn unig



I drefnu ymweliad, ffoniwch ni ar
(029) 2057 3702

Rhaid trefnu ymweliadau gan ysgolion a grwpiau ymlaen llaw.
Codir tâl am rai sesiynau wedi'u hwyluso.

Mae llechi wedi bod yn rhan annatod o dirwedd a hanes Cymru am ganrifoedd. Yma, yn y gweithdai ar safle hen chwarel Dinorwig, byddwn yn eich tywys yn ôl i'r oes a fu i edrych ar ei hanes diddorol a chewch gamu i esgidiau'r chwarelwyr fu'n gweithio yno.





“Gwych! Y plant i gyd yn dweud mai dyma'r ymweliad gorau erioed!”

Ysgol Gwaun Gynfi



Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis, Gwynedd, LL55 4TY

Ffôn: (029) 2057 3702 Ffacs: (01286) 871906   @amgueddfalechi



Mae ein rhaglen addysg lawn a gwybodaeth bwysig am archebu lle ar ein gwefan:

www.amgueddfacymru.ac.uk/lechi/addysg